**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-419
Ein cyf/Our ref CS/01645/13

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
drwy ofal Clerc y Pwyllgor

Stephen.George@cymru.gov.uk

21 Hydref 2013

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Hydref parthed deiseb sy'n galw am foratoriwm ar geisiadau am ffermydd gwynt. Nodaf yr wybodaeth ychwanegol y mae'r deisebydd wedi'i chyflwyno. Fodd bynnag, rwyf yn parhau i fod o'r farn na ddylid cael moratoriwm ar geisiadau am ffermydd gwynt.

Cyn llunio fersiynau terfynol o bolisi cynllunio a nodiadau cyngor technegol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus pan fyddant ar ffurf drafft. Nid oedd Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn eithriad a chafodd ei gyhoeddi ar ffurf drafft yn 2004 gyda 1,723 yn ymateb. Ymgynghorwyd â phob Aelod Seneddol, pob Aelod Cynulliad a phob awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r system gynllunio'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yn y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a gwneud sylwadau ar geisiadau. Cynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus am geisiadau cynllunio a dylid ystyried barn y gymuned leol wrth ddod i benderfyniad. Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn nodi'r hyn y mae gofyn i awdurdodau cynllunio lleol ei wneud o ran cyhoeddusrwydd. I gynlluniau sydd dros 50MW, nad ydynt yn ddatganoledig ac sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, y datblygwr sy'n gyfrifol am gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cam cyn y cais fel y nodir yn Neddf Cynllunio 2008.

Nid wyf yn cefnogi cyflwyno moratoriwm ar geisiadau ffermydd gwynt.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*